DRAFT

# PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn yr Ystafell Bwyllgor ac ar Zoom ar 25 Mehefin, 2026

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Dr Geraint Jones (Aelod Lleyg) (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Euryn Morris (Dirprwy Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Geraint Bebb, Kenneth Hughes, Gwilym O. Jones, Keith Roberts.<br><br>Aelodau Lleyg: Mr Adam Jones |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr (ar gyfer eitem 10)<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151<br>Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg (AS)<br>Pennaeth y Gwasanaethau Tai (ar gyfer eitem 5)<br>Rheolwr Perfformiad Strategol a Phrosiectau (GP) (ar gyfer eitem 10)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH)<br>Gwe-ddarlledu (AS) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | William Maund, William Parry (Aelodau Lleyg), y Cynghorydd Robin Williams (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmeriaid), Lora Williams a Carwyn Rees (Archwilio Cymru) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Pennaeth Gwasanaethau Oedolion, Prif Archwilydd (NW), Uwch Archwilydd (AC) (CSYM) |

---

Croesawodd y Dirprwy Gadeirydd Aelodau a Swyddogion i'r cyfarfod. Estynnodd ei gydymdeimlad ef a'r pwyllgor â Mr William Parry, Aelod Lleyg yn dilyn profedigaeth ddiweddar. Hysbysodd y pwyllgor am newid yn nhrefn busnes, sef cyflwyno eitem 10 ar yr agenda ar ôl eitem 2.

### 1. ETHOL CADEIRYDD

Etholwyd Dr. Geraint Jones yn Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

### 2. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb..

### 3. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 14 Mai, 2026 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

### 4. LOG GWEITHREDOEDD Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg a oedd yn cynnwys log gweithredoedd y pwyllgor i'w ystyried. Mae'r adroddiad yn diweddaru'r Pwyllgor ar statws a chynnydd y camau gweithredu a'r penderfyniadau y cytunwyd arnynt.

Diweddarodd y Pennaeth Archwilio a Risg y pwyllgor mewn perthynas ag eitem 5 ar y log gan gadarnhau bod y Tîm Arweinyddiaeth wedi rhoi cymeradwyaeth derfynol i'r Polisi Deallusrwydd Artiffisial. Mae grŵp gweithredu wedi'i sefydlu i gydlynu'r broses o lansio'r polisi gyda'r adnoddau, y deunydd cyfathrebu a'r hyfforddiant angenrheidiol. Sicrheir ei fod yn cyd-fynd â'r elfennau hyfforddi maes o law gan fod y rheini'n dibynnu ar ffactorau allanol.

**Penderfynwyd nodi'r camau y manylir arnynt yn nhabl y log gweithredoedd a chadarnhau bod y pwyllgor yn fodlon bod y camau gweithredu wedi'u gweithredu'n briodol.**

## 5. ARCHWILIAD MEWNOL O GRANTIAU CYFLEUSTERAU I'R ANABL – DIWEDDARIAD AR GYNNYDD

Rhoddodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai ddiweddariad llafar ar y cynnydd a wnaed i weithredu'r camau gweithredu sy'n weddill o'r adolygiad archwilio dilynol o Grantiau Cyfleusterau Anabl (DFGs) a oedd wedi arwain at farn sicrwydd Cyfyngedig. Nododd yr archwiliad bedwar maes sydd angen eu gwella: gweinyddu DFG a chadw cofnodion, cywirdeb data perfformiad DPA, taliadau dyblyg a gweithdrefnau ar gyfer cofrestru ffioedd tir lleol sy'n gysylltiedig â DFG.

Dywedodd fod cronfa ddata ganolog o achosion DFG bellach wedi'i sefydlu, gyda chefnogaeth adnodd pwrpasol am ddau ddiwrnod yr wythnos i gadw cofnodion cywir a pharatoi gwybodaeth amserol am berfformiad. Mae cyfarfodydd monitro misol gyda'r Rheolwr Datblygu Gwasanaeth a'r Rheolwr Cymorth Busnes ar waith i sicrhau bod y gronfa ddata a'r prosesau cysylltiedig yn cael eu gweithredu'n effeithiol. Adolygwyd y broses dalu DFG gan Gyfrifydd y Gwasanaeth a chyflwynwyd nodiadau credyd lle bo hynny'n briodol. Mae gwaith i gryfhau gweithdrefnau cofrestru ffioedd tir sy'n gysylltiedig â DFG yn mynd rhagddo ac mae'r dogfennau perthnasol yn cael eu hadolygu gan y Cyfreithiwr Contractau.

O ran DPA, nododd fod y targedau'n heriol. Cafodd y broses o gymeradwyo DFG ei gohirio ar ddiwedd Chwarter 3 2024/25 oherwydd bod y gyllideb wedi'i hymrwymo'n llawn, a oedd yn golygu bod y gwasanaeth dan anfantais ar ddechrau 2025/26 gan arwain at ôl-groniad. Nid yw'r targedau ar gyfer 2026/27 wedi'u cwblhau ond y gobaith yw y byddant yn adlewyrchu'r ffaith bod gwaith un chwarter wedi'i golli a'r effaith o ganlyniad ar berfformiad.

Mewn ymateb i gwestiynau am y rhesymau craidd dros y materion sylfaenol, esboniodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai fod tri swyddog technegol a dau aelod o staff gweinyddol yn arfer gweithio i'r gwasanaeth ond fod y nifer wedi lleihau i un swyddog technegol gan greu bwlch gweinyddol sydd bellach yn cael sylw. Cadarnhaodd y gellir cynnwys y cyfrifoldebau o fewn y swyddi presennol, gan osgoi costau staffio ychwanegol. O ran gohirio'r broses gymeradwyo, eglurodd fod tua 90 diwrnod wedi'u colli o darged 220 diwrnod. Er nad oedd yn disgwyl i'r targed gael ei hymestyn yn llawn, bydd cyrraedd y targed presennol yn fwy heriol o ganlyniad. Nid oedd yn bosibl rhoi caniatâd ar gyfer ceisiadau a gyflwynwyd ar ôl Chwarter 3 2024/25 tan 1 Ebrill 2025, pan oedd y gyllideb newydd ar gael, er rhoddwyd caniatâd wedyn heb oedi. Mae'r cloc DPA yn dechrau pan fydd y cynllun gofal yn cael ei drosglwyddo i'r Gwasanaeth Tai.

Mewn ymateb i gais gan aelod, esboniodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 y sail ariannu cyfalaf ar gyfer DFG gan dynnu sylw at y cyfyngiadau ar y cyllid hwnnw sydd yn ei dro yn cyfyngu ar nifer y rhai sy'n cael caniatâd. Mae'r Pwyllgor Gwaith yn adolygu'r sefyllfa, a bydd cais am gyllid ychwanegol yn 2026/27 yn cael ei gyflwyno i fynd i'r afael â'r ôl-groniad. Fodd bynnag, mae pwysau tymor hir yn parhau oherwydd y galw cynyddol sy'n gysylltiedig â phoblogaeth sy'n heneiddio. Atgoffwyd yr Aelodau bod perfformiad yn cael ei ddylanwadu nid yn unig gan broses a thargedau ond hefyd gan lefelau cyllid, argaeledd contractwyr a chymhlethdod achosion.

DRAFT

Mae'r Gwasanaeth Tai yn parhau i gryfhau prosesau DFG, a gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo cyllid ychwanegol. Bydd angen adolygu cyllideb DFG hefyd fel rhan o broses gosod cyllideb 2027/28.

Mynegodd yr Aelodau bryder am yr oedi wrth gyflwyno DFG a phwysleisiwyd yr angen am gyllid digonol a phrosesau cadarn i helpu i'w darparu'n brydlon. Fe wnaethant hefyd gydnabod cymhlethdod y materion a'r ystod o ffactorau dan sylw a gofynnwyd am ddiweddariad ysgrifenedig byr ar gynnydd pellach yn erbyn y pedwar maes a nodwyd i'w gwella ym mis Gorffennaf yng nghyfarfod y pwyllgor ym mis Gorffennaf.

**Penderfynwyd nodi'r diweddariad ac y bydd diweddariad ysgrifenedig pellach yn cael ei ddarparu i gyfarfod y pwyllgor ym mis Gorffennaf.**

## 6. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO 2025/26

Cyflwynwyd adroddiad blwyddyn Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gyfer 2025/26 i'w gymeradwyo gan y pwyllgor. Amlinellodd sut y cyflawnodd y pwyllgor ei gylch gorchwyl yn ystod y flwyddyn. Mae'r adroddiad hefyd yn gwerthuso effeithiolrwydd y pwyllgor ei hun a'i gydymffurfiaeth â chanllawiau CIPFA o ran rôl a swyddogaethau pwyllgor archwilio.

Cyflwynodd y Cynghorydd Euryn Morris, y Dirprwy Gadeirydd, yr adroddiad gan dynnu sylw at y ffaith bod y pwyllgor wedi cyflawni ei gyfrifoldebau craidd ar draws saith cyfarfod, gan sicrhau bod trefn effeithiol i oruchwylio'r broses lywodraethu, adroddiadau ariannol, rheoli'r trysorlys, archwilio mewnol ac allanol, rheoli risg, gweithgarwch gwrth-dwyll a thrin cwynion. Cadarnhaodd fod y pwyllgor yn fodlon ei fod wedi cyflawni ei gylch gwaith yn effeithiol ac wedi darparu sicrwydd annibynnol i'r Cyngor, gan gydnabod bod yn dal angen rhoi sylw i reolaeth mewn meysydd penodol i gynnal a chryfhau trefniadau llywodraethu.

**Penderfynwyd cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gyfer 2025/26 cyn ei gyflwyno i gyfarfod y Cyngor Sir ar 24 Medi 2026.**

## 7. ADRODDIAD BLYNYDDOL ARCHWILIO MEWNOL 2025/26

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg a oedd yn cynnwys Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol ar gyfer 2025/26 i'w ystyried gan y pwyllgor. Mae'r adroddiad blynyddol yn darparu barn gyffredinol y Pennaeth Archwilio a Risg ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheoli'r Cyngor yn ystod y flwyddyn.

Cyflwynodd y Pennaeth Archwilio a Risg yr adroddiad a chadarnhaodd fod gan Gyngor Sir Ynys Môn fframwaith digonol ac effeithiol o reoli, llywodraethu a rheoli risg ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026. Er nad oes meysydd o bryder corfforaethol sylweddol, mewn rhai meysydd mae angen cyflwyno neu wella rheolaethau mewnol i sicrhau bod amcanion yn cael eu cyflawni a bod y rhain yn destun monitro. Mae barn archwilio mewnol ddiamod.

Wrth amlinellu'r sail ar gyfer y farn hon, adroddodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod Archwilio Mewnol wedi cyrraedd ei darged perfformiad allweddol trwy adolygu 80% o 11 risg strategol y Cyngor gyda sgôr risg gweddilliol coch neu ambr o fewn y cyfnod o 24 mis arfaethedig. Derbyniodd pob un ond un o'r risgiau hyn sicrwydd "rhesymol"; derbyniodd yr adolygiad Diogelwch TGCh Ysgol Uwchradd sicrwydd "Cyfyngedig", ac mae gwaith dilynol ar y gweill. Darparwyd sicrwydd ar gyfer un risg strategol sy'n ymwneud â nodau Sero Net y Cyngor gan gorff allanol.

O'r naw archwiliad a wnaed o feysydd allweddol eraill, derbyniodd un sicrwydd "Sylweddol", pum sicrwydd "Rhesymol" a thri sicrwydd "Cyfyngedig". Yn gyffredinol, darparodd Archwilio Mewnol sicrwydd "rhesymol" neu uwch ar gyfer 73% (72% yn 2024/25) o'r holl archwiliadau a gynhaliwyd, gyda phedwar archwiliad (27%) yn derbyn sicrwydd "Cyfyngedig". Ni dderbyniodd unrhyw un "Dim" sicrwydd.

Parhaodd y gwasanaeth i fodloni safonau proffesiynol. Daeth yr Asesiad Ansawdd Allanol diweddaraf yn 2023 a gynhaliwyd gan Gyngor Sir y Fflint i'r casgliad bod y gwasanaeth yn "Cydymffurfio'n Gyffredinol", sef y lefel uchaf o gydymffurfiaeth. Cadarnhaodd hunanasesiad yn erbyn y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang newydd ym mis Mehefin 2025 fod y gwasanaeth yn bodloni'r gofynion newydd yn gyffredinol a bod angen cryfhau rhywfaint ar y drefn o gasglu tystiolaeth.

Perfformiodd Archwilio Mewnol yn dda yn erbyn y rhan fwyaf o'i ddangosyddion perfformiad 2025/26 gyda phedwar allan o chwe tharged wedi'u cyflawni, gan gynnwys y targed craidd o adolygu 80% o'r risgiau gweddilliol coch ac ambr yn y Gofrestr Risg Strategol.

Mewn ymateb i gwestiynau gan y pwyllgor, esboniodd y Pennaeth Archwilio a Risg y gwahaniaeth rhwng adolygiad ymgynghorol ac adolygiad archwilio ffurfiol. Eglurodd hefyd, er bod Archwilio Mewnol yn cynnal gwiriadau cydymffurfio ar draws gwasanaethau yn flaenorol, mae cyfyngiadau capasiti a thîm archwilio mwy darbodus yn golygu nad yw hyn bellach yn ymarferol. O ganlyniad, rheolwyr gwasanaeth sydd bellach yn gyfrifol am wirio cydymffurfiaeth, gyda'r rhan fwyaf o wasanaethau yn cael eu cefnogi gan eu Rheolwr Gwasanaeth Busnes eu hunain i ymgymryd â'r gwaith hwn.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol ar gyfer 2025/26 gan gynnwys barn y Pennaeth Archwilio a Risg fod trefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol y Cyngor yn ddigonol ac yn effeithiol.**
- **Nodi'r crynodeb o'r gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn a'r sicrwydd a ddarparwyd fel sail i'r farn.**
- **Nodi perfformiad y swyddogaeth archwilio mewnol, yn enwedig lefel cydymffurfiaeth â'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang yn Sector Cyhoeddus y DU.**

## 8. SIARTER ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg oedd yn cynnwys y Siarter Archwilio Mewnol ddiwygiedig i'w hystyried a'i chymeradwyo gan y pwyllgor. Roedd y Siarter yn nodi pwrpas, awdurdod a chyfrifoldebau gwasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor yn unol â'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang newydd yn Sector Cyhoeddus y DU (GIAS yn Sector Cyhoeddus y DU) a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2025.

Cyflwynodd y Pennaeth Archwilio a Risg yr adroddiad gan nodi bod y Siarter wedi'i hadolygu a'i chymeradwyo ddiwethaf ym mis Mehefin 2025 a sicrhawyd bod gofynion y safonau newydd wedi'u hymgorffori'n benodol. Mae gwaith i weithredu gofynion pellach GIAS yn Sector Cyhoeddus y DU wedi nodi'r angen am fethodoleg i gadarnhau'r broses o weithredu argymhellion neu gynlluniau gweithredu, gan gynnwys meini prawf ar gyfer penderfynu pryd y dylai asesiadau dilynol gael eu cynnal.

Mae protocol dilynol Archwilio Mewnol bellach wedi'i ddogfennu'n ffurfiol a'i gynnwys yn y Siarter yn Atodiad B. Mae'r protocol hefyd wedi'i gryfhau yn dilyn trafodaeth gydag Aelodau yn ystod sesiwn breifat y pwyllgor ar 14 Mai 2026. O dan y trefniadau diwygiedig, pan gyflwynir adroddiad archwilio mewnol i'r pwyllgor a bod y lefel sicrwydd yn parhau i fod yn

DRAFT

"Gyfyngedig" ar ôl yr adolygiad dilynol cyntaf, gofynnir yn ffurfiol i ddeiliad y portffolio perthnasol fynychu cyfarfod y pwyllgor lle mae'r adroddiad yn cael ei ystyried. Bwriad hyn yw atgyfnerthu atebolrwydd, cefnogi cynnydd amserol ar gamau y cytunwyd arnynt a sicrhau bod gan y pwyllgor wybodaeth lawn am ymateb y gwasanaeth dan sylw. Cadarnhaodd mai dyma'r unig newid i'r Siarter a gymeradwywyd ym mis Mehefin 2025.

Codwyd cwestiwn ynglŷn â'r protocol dilynol, yn benodol y ddarpariaeth pan ofynnir i berchnogion gweithredoedd 'critigol' neu 'sylweddol' sydd heb eu datrys 12 mis yn dilyn y dyddiad cwblhau gwreiddiol esbonio i'r Pwyllgor y rheswm dros yr oedi. Mynegodd y pwyllgor bryder bod 12 mis yn gyfnod hir i weithredoedd fod ar agor a chwestiynodd a oedd yr amserlen hon yn rhesymol neu fod perygl iddi roi ymdeimlad ffug o sicrwydd i wasanaethau ynghylch pa mor hir sydd ganddynt i fynd i'r afael â materion.

Esboniodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod rhai camau gweithredu yn gofyn am sylw dilynol trwy brosesau democrataidd, a all gymryd amser. Pwysleisiodd fod Archwilio Mewnol eisiau i'r pwyllgor ganolbwyntio ar y materion pwysicaf, ac y byddai lleihau'r amserlen i 6 mis yn debygol o arwain at sefyllfa lle byddai'r pwyllgor yn adolygu nifer uchel o weithredoedd heb eu cwblhau. Nododd hefyd fod Archwilio Mewnol yn annog gwasanaethau i osod dyddiadau cwblhau realistig, gan y gall amserlenni rhy fyr arwain at ymweliadau dro ar ôl tro gan Archwilio Mewnol pan nad yw'r camau gweithredu wedi'u cwblhau. Cadarnhaodd fod Archwilio Mewnol yn mynd ar drywydd gwasanaethau yn rhagweithiol cyn bod angen i'r camau gael eu cwblhau.

**Penderfynwyd cymeradwyo'r Siarter Archwilio Mewnol ddiwygiedig.**

## 9. STRATEGAETH A CHYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2026/27

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg oedd yn cynnwys y Strategaeth a Chynllun Archwilio Mewnol 2026/2027 i'w hystyried gan y pwyllgor. Mae'r strategaeth yn nodi sut y bydd y swyddogaeth archwilio mewnol yn darparu sicrwydd annibynnol, sy'n seiliedig ar risg i gefnogi'r Cyngor i gyflawni ei amcanion strategol.

Cyflwynodd y Pennaeth Archwilio a Risg yr adroddiad gan nodi bod y strategaeth wedi'i datblygu yn unol â'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (GIAS) a'r gofynion CIPFA newydd a'u bod yn adlewyrchu'r amgylchedd heriol y mae'r Cyngor yn parhau i weithredu ynddo, yn enwedig pwysau ariannol parhaus. Bydd Archwilio Mewnol yn parhau i ddefnyddio dull ystwyth, sy'n seiliedig ar risg, gan ddiweddaru'r cynllun yn ystod y flwyddyn wrth i risgiau a blaenoriaethau newid.

Mae'r strategaeth yn amlinellu gweledigaeth ar gyfer swyddogaeth archwilio mewnol aeddfed, arloesol a chydweithredol, wedi'i chefnogi gan dri amcan strategol - datblygu tîm medrus a chymwys, ymgorffori technoleg a dadansoddeg data mewn gwaith archwilio, a chryfhau cydweithio yn rhanbarthol a chenedlaethol. Dywedodd fod y cynllun yn blaenoriaethu archwiliadau o risgiau strategol y Cyngor dros gyfnod treigl o ddwy flynedd fel y manylir yn Atodiad B gyda ffocws ar risgiau "coch" cynhenid a risgiau "coch" neu "ambr" gweddilliol.

Amlinellodd y rhaglen waith archwilio TG arfaethedig i'w chyflwyno gan archwilwyr TG Cyngor Salford ynghyd â meysydd eraill o waith archwilio a fydd yn cael eu diweddaru a'u hadnewyddu'n barhaus, yn ogystal ag adolygiadau sydd angen eu gwneud o 2025/26. Mae'r strategaeth hefyd yn cynnwys mesurau perfformiad ar gyfer 2026/27 gyda dau ddangosydd newydd sy'n cynnwys sicrwydd amcanion strategol y Cynllun Corfforaethol a hunanasesu staff yn erbyn Fframwaith Cymhwysedd IIA.

Trafododd y pwyllgor y materion canlynol –

DRAFT

- Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ynghylch i ba raddau y gellir diwygio'r cynllun, gan ystyried na all y pwyllgor gyfarwyddo Archwilio Mewnol.

  Esboniodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod canllawiau CIPFA yn datgan yn glir na ddylai pwyllgorau archwilio gyfarwyddo gwaith Archwilio Mewnol, rhag gwrthdaro buddiannau, er enghraifft, pwyllgor archwilio yn cyfeirio Archwilio Mewnol oddi wrth meysydd sy'n wleidyddol sensitif. Pwysleisiodd fod gan wasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor berthynas waith gref gyda swyddogion a gyda'r pwyllgor, ac y gall Archwilio Mewnol addasu'r cynllun i ddarparu ar gyfer ceisiadau am adolygiad pan fo materion penodol yn codi.

- A yw alergenau yn broblem yn ysgolion Ynys Môn, gan nodi bod y mater yn destun archwiliad wedi'i ohirio o 2025/26. Esboniodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod digwyddiad mewn awdurdod cyfagos wedi tynnu sylw at wendidau yn y ffordd yr oedd darpariaeth prydau ysgol yn ystyried alergenau, a bod Partneriaeth Archwilio Gogledd a Chanolbarth Cymru hefyd wedi archwilio'r mater. Cadarnhaodd fod y sefyllfa yn Ynys Môn yn wahanol gan fod y ddarpariaeth prydau ysgol ar gontract allanol.

  Holodd y pwyllgor ymhellach am effaith hyn ar adnoddau archwilio mewnol a gofynion eraill posibl o dan y safonau newydd.

  Esboniodd y Pennaeth Archwilio Mewnol, oherwydd bod y gwasanaeth eisoes yn gweithredu mewn ffordd fodern, nad oedd cyflwyno'r GIAS yn cael effaith fawr ar ei waith, ar wahân i fod angen sylfaen dystiolaeth ddeallus gryfach i gefnogi ei waith. Nododd fod y gwasanaeth yn ceisio bodloni'r gofyniad hwn mewn ffordd ddeallus er mwyn osgoi baich gweinyddol diangen. Er na ddisgwylir i'r safonau gael eu hailwampio'n sylweddol eto am beth amser, mae gofynion perthnasol yn cael eu cyflwyno ar gyfer meysydd penodol e.e. mewn perthynas â seiberddiogelwch ac mae'r gwasanaeth archwilio mewnol yn gallu manteisio ar arbenigedd archwilio TG arbenigol Cyngor Salford yn y maes hwn.

  Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch a allai cyfyngiadau ar allu archwilio TG Cyngor Salford effeithio ar gynlluniau Archwilio Mewnol y Cyngor neu gyflwyno risg, dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod tîm archwilio TG Cyngor Salford yn fawr, yn gwasanaethu nifer o gleientiaid ac yn gweithredu bron fel uned lled-broffesiynol. Mae'n gallu ymdopi ag absenoldebau staff ac felly nid oedd hi'n ystyried hyn yn risg. Ychwanegodd fod y farchnad ar gyfer darparwyr archwilio TG yn gyfyngedig a bod darparwyr allanol yn aml yn gostus ond fel awdurdod lleol, mae gwasanaeth archwilio TG Cyngor Salford yn gost-effeithiol.

- O dan Amcan Strategol 2, gofynnodd aelodau am y defnydd o ddadansoddeg data mewn archwiliadau a sut mae hyn yn cael ei fesur.

  Esboniodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod gan y gwasanaeth bellach feddalwedd sy'n ei alluogi i archwilio llawer iawn o ddata yn gyflym, a bod ymarfer archwilio mewnol yn symud oddi wrth samplu i ddod i gasgliadau cyffredinol am feysydd pwnc. Er na ellir defnyddio dadansoddeg data ar gyfer pob archwiliad, mae'r gwasanaeth yn bwriadu ehangu ei ddefnydd gyda chynnydd yn cael ei fesur yn ôl nifer yr archwiliadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn a faint o'r rhai a ddefnyddiodd ddadansoddeg data.

**Penderfynwyd –**

- **Cymeradwyo'r Strategaeth a'r Cynllun Archwilio Mewnol ar sail risg ar gyfer 2026/27 gan eu bod yn rhoi'r sicrwydd sydd ei angen ar y Cyngor.**

- **Cadarnhau bod y pwyllgor yn fodlon â gofynion adnoddau Archwilio Mewnol a'r defnydd o ffynonellau sicrwydd eraill ac nad oes cwmpas amhriodol na chyfyngiadau o ran adnoddau.**
- **Cymeradwyo'r mesurau perfformiad Archwilio Mewnol fel y nodir yn y strategaeth a'r cynllun.**

**10. ASESIAD PANEL PERFFORMIAD**

Cyflwynwyd adroddiad y Prif Weithredwr a oedd yn cynnwys adroddiad Asesiad Panel Perfformiad i'w ystyried gan y pwyllgor. Cynhaliwyd yr asesiad gan gymheiriaid sy'n ofynnol gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau Cymru 2021, ym mis Tachwedd 2025, fe'i hwyluswyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac fe'i cynhaliwyd gan banel o bedwar. Edrychodd ar ba mor effeithiol y mae'r cyngor yn arfer ei swyddogaethau, yn defnyddio adnoddau ac yn llywodraethu ei hun.

Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad gan dynnu sylw at y ffaith bod yr asesiad panel perfformiad wedi canfod bod y Cyngor yn arfer ei swyddogaethau yn unol â'r dyletswyddau perfformiad a amlinellir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021, er gwaethaf pwysau o ran gweithlu a phwysau ariannol. Cadarnhaodd yr asesiad fod y Cyngor yn dangos trefn lywodraethu gadarn, perthnasoedd adeiladol rhwng aelodau a swyddogion a llwybr gwelliant pendant ers 2018. Mae'r asesiad hefyd yn nodi bod gweithio mewn partneriaeth, yn enwedig gyda'r sector gwirfoddol, yn gryfder penodol gan y Cyngor ynghyd â gweithlu ymroddedig ac ymgysylltiedig. Mae'r Panel yn dod i'r casgliad bod Ynys Môn mewn sefyllfa gref i adeiladu ar ei chynnydd ac ymateb yn effeithiol i'r heriau sydd o'n blaenau.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod asesiad y panel annibynnol yn destun balchder ac yn rhoi sicrwydd bod y Cyngor ar y trywydd iawn. Mae ymateb drafft y Cyngor, a nodir yn adran 4, yn cyd-fynd â disgwyliadau CLlLC ac yn amlinellu camau gweithredu i fynd i'r afael â'r wyth argymhelliad, a fydd yn cael eu hymgorffori a'u monitro drwy'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol a'r Cynlluniau Cyflenwi Gwasanaethau. Bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei hychwanegu ar ôl cyflwyno'r asesiad i'r Pwyllgor Gwaith a bydd y gwaith yn cael ei integreiddio i raglen ehangach y Cyngor yn ystod y cyfnod cyn etholiad llywodraeth leol ym mis Mai 2027. Yna bydd yn dod yn rhan amlwg ac yn bwydo i mewn i Gynllun newydd y Cyngor sy'n hybu gwelliant dros y pum mlynedd nesaf.

Cododd y pwyllgor y materion canlynol ar adroddiad yr Asesiad Panel Perfformiad -

- Gofynnodd y pwyllgor am ddiweddariad ar argymhelliad 4 sy'n cynghori'r Cyngor i gyflymu ei gapasiti a'i wydnwch o ran cyflawni prosiectau, gan nodi mai'r dyddiad cwblhau targed yw Gorffennaf 2026.

  Cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod adolygiad o drefniadau llywodraethu ar y gweill a disgwylir i'r gwaith gael ei gwblhau erbyn diwedd mis Gorffennaf 2026.

- Nododd y pwyllgor argymhelliad y Panel y dylai'r Cyngor ddatblygu strategaeth economaidd uchelgeisiol i ymateb i gyfleoedd mawr fel SMR Wylfa. Gofynnodd y pwyllgor a oes gan y Cyngor y gallu technegol arbenigol a'r adnoddau pwrpasol i lunio strategaeth o'r fath yn fewnol, o ystyried cymhlethdod y diwydiant niwclear.

  Eglurodd y Prif Weithredwr rôl y Cyngor fel awdurdod cynllunio cymunedol a lleol lletyol ar gyfer SMR Wylfa, sy'n cael ei yrru gan y broses gynllunio statudol ac nad yw'n ymestyn i faterion diogelwch na thechnegol. Eglurodd, er nad oes gan y Cyngor gapasiti mewnol pwrpasol, fod Cytundeb Perfformiad Cynllunio (PPA) gyda'r datblygwr - sydd ar fin cael ei gymeradwyo - yn darparu dull ar gyfer ariannu'r gwaith. Trwy'r cytundeb hwn, mae'r datblygwr yn ariannu gwaith y Cyngor i ddelio â'r cais, gan ddiogelu darpariaeth



DRAFT

gwasanaethau craidd gan alluogi'r Cyngor i gynyddu capasiti a gallu heb roi'r gost ar dalwyr ardrethi. Mae cyllideb wedi'i dyrannu ar gyfer 2026/27, a bydd y Cyngor yn cyflwyno pecynnau gwaith i ryddhau'r cyllid hwn a dechrau datblygu capasiti. Wrth i'r prosiect fynd rhagddo, mae graddfa'r PPA yn debygol o gynyddu.

- Gofynnodd y pwyllgor am eglurhad o ymateb y Cyngor i'r argymhelliad ei fod yn ystyried sefydlu Panel Sgriwtini pwrpasol ar yr Economi.

  Esboniodd y Prif Weithredwr fod y swyddogaeth Graffu eisoes yn gweithredu hyd eithaf ei gallu i weinyddu dau bwyllgor a thri phanel. Byddai sefydlu panel ychwanegol yn golygu y byddai angen lleihau gwaith mewn mannau eraill neu sicrhau capasiti ychwanegol am gost ychwanegol. Nododd fod rhaglen ehangach yn adolygu'r swyddogaeth Graffu, a bydd yr argymhelliad yn cael ei ystyried fel rhan o'r gwaith hwnnw. Gwahoddir mewnbwn gan aelodau i gyfrannu at adroddiad sy'n nodi cynigion ar gyfer y trefniadau Craffu y bydd y Cyngor newydd yn eu penderfynu ar ôl yr etholiad ym mis Mai 2027.

- Ceisiodd y pwyllgor sicrwydd ynghylch sut y byddai mynd i'r afael â'r camau gweithredu yn y cynllun gwaith yn cyd-fynd â gwaith gweithredol o ddydd i ddydd.

  Esboniodd y Prif Weithredwr fod ymrwymiad i flaenoriaethu'r camau gweithredu, a bod nifer ohonynt eisoes yn cael eu hystyried. Trwy eu hintegreiddio i gynlluniau strategol yn hytrach na'u trin fel prosiectau annibynnol, byddant yn dod yn rhan o fframwaith gweithredu'r Cyngor a byddant yn hybu gwelliant parhaus. Nododd fod rhai camau gweithredu yn cynrychioli darnau sylweddol o waith a bydd angen eu monitro i sicrhau nad ydynt yn arwain at lithriad mewn mannau eraill. Bydd aelod o'r Tîm Arweinyddiaeth yn cefnogi pob cam gweithredu gyda diweddariadau i un o fyrddau corfforaethol y Cyngor, i'r Pwyllgor Gwaith yn anffurfiol ac i'r deiliaid portffolio perthnasol. Bydd y Cyngor yn gwahodd mewnbwn allanol lle bo angen, e.e. mewn perthynas â datblygu strategaeth economaidd ac mewn perthynas â moderneiddio, sy'n faes eang a chymhleth y mae angen ei ystyried yn ofalus.

- Gofynnodd y pwyllgor a ystyrid bod gwendidau yn bodoli ym mhrosesau cyfathrebu mewnol ac allanol y Cyngor, gan nodi bod y maes hwn wedi'i amlygu yn yr asesiad.

  Eglurodd y Prif Weithredwr fod yr asesiad wedi canfod y gellid cryfhau prosesau cyfathrebu'r Cyngor, yn enwedig trwy fod yn fwy rhagweithiol wrth gyfathrebu'r hyn a gyflawnwyd, ei heriau a'i uchelgeisiau yn y dyfodol, a mabwysiadu dull mwy amrywiol gan gynnwys mwy o ymgysylltiad wyneb yn wyneb a mwy o ddefnydd o'r cyfryngau cymdeithasol. Mae gan y Cyngor dîm cyfathrebu bach sy'n ymgymryd â llawer iawn o waith. Mae gwelliannau diweddar yn cynnwys cyflwyno "stori'r dydd" mewnol ar gyfer staff a datblygu strategaeth gyfathrebu ddrafft. Bydd y Cyngor hefyd yn ystyried y ffordd orau o ddefnyddio sianeli cyfryngau cymdeithasol wrth sicrhau bod cyfathrebu yn cyrraedd pob preswylydd.

  Ar ôl adolygu adroddiad yr asesiad panel perfformiad, croesawodd y pwyllgor yr adroddiad am ei bositifrwydd a'i feysydd canmoliaeth. Nododd yr aelodau eu bod yn edrych ymlaen at dderbyn y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr y byddai'n hapus i adrodd yn ôl, yn unol â rhaglen waith ac amserlen y pwyllgor, ar gynnydd yn erbyn y cynllun gwaith naill ai yn llawn neu ar elfennau unigol.

**Penderfynwyd nodi Adroddiad yr Asesiad Panel Perfformiad a chefnogi cynllun gweithredu'r Cyngor mewn ymateb i'r adroddiad.**

DRAFT

## 11. ADOLYGIAD O FLAENRAGLEN WAITH 2026/27

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg a oedd yn cynnwys Blaenraglen Waith y pwyllgor ar gyfer 2026/27 wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu'r newidiadau diweddaraf, i'w ystyried gan y pwyllgor. Mae rhaglen datblygu aelodau wedi'i chynnwys yn Atodiad B.

Dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg wrth aelodau fod dwy sesiwn hyfforddi a gynhelir yn fuan mewn perthynas â'r Datganiad o'r Cyfrifon a drefnwyd ar gyfer 25 Awst a 10 Medi 2026.

Mewn ymateb i ymholiad gan aelod ynghylch a fyddai'n bosibl i'r pwyllgor yn ei rôl oruchwylio ar gyfer systemau a phrosesau, ofyn am adroddiad gan dîm Cynllun Datblygu Lleol y Cyngor ar ddatblygu'r cynllun newydd ar gyfer Ynys Môn, dywedwyd wrth y pwyllgor y byddai'n cael ei adolygu gan archwilio mewnol pe bai datblygiad y CDLl wedi'i nodi fel risg strategol. Fel arall, y Pwyllgor Polisi Cynllunio sy'n gyfrifol am oruchwylio'r cynllun, oni bai bod gwendidau yn y prosesau sy'n sail i ddatblygiad y CDLl yn creu risg o her, ac yn yr achos hwnnw gallai ddod yn fater i'r pwyllgor hwn.

**Penderfynwyd cadarnhau bod Blaenraglen Waith 2026/27 yn bodloni cyfrifoldebau'r pwyllgor yn unol â'i gylch gorchwyl.**

**Dr Geraint Jones**
**(Cadeirydd)**

DRAFFT